

**2014 Rhif 2124 (Cy. 208)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ATAL CREULONDEB**

Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg  
eu Lladd (Diwygiadau Canlyniadol)  
(Cymru) 2014

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ganlyniad i Reoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 (O.S. 2014/951) (Cy. 92).

Maent yn gwneud diwygiadau canlyniadol i dair Deddf Seneddol ac un offeryn statudol i ddarparu bod y Deddfau hynny a'r offeryn hwnnw yn cyfeirio at dystysgrifau cymhwysedd a thrwyddedau a ddyroddir o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r offeryn hwn, gan na ragwelir costau i'r sector busnes na'r sector gwirfoddol.

**2014 Rhif 2124 (Cy. 208)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ATAL CREULONDEB**

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg  
eu Lladd (Diwygiadau Canlyniadol)  
(Cymru) 2014**

*Gwnaed* 6 Awst 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 8 Awst 2014

*Yn dod i rym* 5 Medi 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(2) ac maent yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau hynny.

## RHAN 1

### Cyffredinol

#### **Enwi, cymhwyso a chychwyn**

##### **1. Mae'r Rheoliadau hyn—**

- (a) yn dwyn yr enw Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2014;

---

(1) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(2) O.S. 2010/2690.

- (b) yn gymwys o ran Cymru ac o ganlyniad i hynny mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2—
  - (i) yn ymestyn i Gymru a Lloegr; a
  - (ii) yn gymwys o ran Cymru yn unig; ac
- (c) yn dod i rym ar 5 Medi 2014.

### Diwygiadau canlyniadol

2.—(1) Yn adran 10 o Ddeddf Drylliau 1968(1) (cigydda anifeiliaid)—

- (a) yn is-adran (1), yn lle “licensed under the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995 to slaughter horses, cattle, sheep, swine or goats” rhodder “holding a relevant licence”; a

(b) ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

“(1A) For the purposes of subsection (1) a person holds a relevant licence if that person—

(a) is licensed under the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995 to slaughter horses, cattle, sheep, swine or goats; or

(b) holds a certificate of competence or is licensed under the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014.”

(2) Yn adran 16(1)(c) o Ddeddf Lladd-dai 1974(2) (rheoli lladd-dai cyhoeddus), ar ôl “the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995” mewnosoder “or the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014”.

(3) Yn Atodlen 1 i Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986(3) (dulliau priodol o ladd heb boen), yn Nhabl A, yn y golofn ar y chwith o'r pumed cofnod, ar ôl “a current licence granted under the Welfare of Animals (Slaughter or Killing) Regulations 1995” mewnosoder “or a certificate of competence or licence issued under the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014”.

(4) Ym mharagraff 12 o'r Atodlen i Reoliadau Trwyddedu Meistri Gangiau (Eithriadau) 2013(4)—

- (a) dileer y gair “or” ar ôl is-baragraff (a); a
- (b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder “or;

---

(1) 1968 p. 27; diwygiwyd adran 10 gan O.S. 1995/731, rheoliad 28(2) ac Atodlen 14, paragraff (1).

(2) 1974 p. 3; diwygiwyd adran 16(1)(c) gan O.S. 1995/731, rheoliad 28(2) ac Atodlen 14, paragraff 2(3).

(3) 1986 p. 14; gwnaed diwygiadau perthnasol i Dabl A yn Atodlen 1 gan O.S. 2012/3039, rheoliadau 2 ac 16(1) a (4)(d).

(4) O.S. 2013/2216.

(c) a certificate of competence or licence to kill animals under the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014.”

*Rebecca Evans*

Y Dirprwy Weinidog Amaeth a Physgodfeydd, o dan awdurdod y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

6 Awst 2014